**Carl Sargeant AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant**
**Cabinet Secretary for Communities and Children**

Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau
Equality, Local Government and Communities Committee
ELGC(5)-12-16 Papur 7 / Paper 7

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

John Griffiths AC
Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd

30 Tachwedd 2016

Annwyl John

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 17 Tachwedd yn gofyn am eglurhad pellach o rai materion yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor ar 9 Tachwedd.

**Cymunedau yn Gyntaf**

Yn fy natganiad ar gymunedau cryf ar 11 Hydref, nodais fy mod yn bwriadu dirwyn Cymunedau yn Gyntaf i ben. Ers hynny rydym wedi dechrau ar raglen eang o ymgysylltu ar y dull newydd o greu cymunedau cryf, gan gynnwys ystyriaeth fanwl o'r effaith ar bobl, cymunedau, adeiladau cymunedol a sefydliadau eraill. Fel rhan o'n proses ymgysylltu, rydym yn gweithio'n agos gyda phartneriaid cyflenwi i feithrin dealltwriaeth o oblygiadau unrhyw benderfyniad.

Bydd y rhaglen ymgysylltu yn darparu tystiolaeth eang i lywio fy mhenderfyniad. Cafwyd cryn ymateb eisoes i "Trafod Cymunedau", ein harolwg ar-lein, ac rydym yn manteisio ar arbenigedd Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru er mwyn sicrhau ein bod yn deall sut y gallai unrhyw newidiadau posibl i'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf effeithio ar sefydliadau'r Trydydd Sector ac unigolion.

Ni allaf ragfynegi canlyniadau'r rhaglen ymgysylltu felly ni allaf roi cyllidebau a chynlluniau cadarn ichi ar hyn o bryd. Byddaf yn gwneud datganiad pellach ym mis Ionawr, neu Chwefror fan bellaf, ar ôl i'r cam ymgysylltu cyntaf ddod i ben yn y Flwyddyn Newydd.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Carl.Sargeant@llyw.cymru
Correspondence.Carl.Sargeant@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

O fewn fy nghynlluniau ar gyfer 2017-18, mae £34.9m ar gael at ddibenion cymunedol, fel rhan o'r Llinell Wariant yn y Gyllideb (BEL) ar Atal ac Ymyrryd yn Gynnar. Mae'r gyllideb dibenion cymunedol yn cwmpasu Cymunedau yn Gyntaf, Cymunedau am Waith, Esgyn a gweithgareddau eraill sy'n gysylltiedig â chymunedau.

**Cymunedau am Waith ac Esgyn**

Mae cefnogi ffyniant drwy gynyddu cyflogadwyedd ymysg y rhai sydd bellaf o'r farchnad lafur yn y cymunedau â'r amddifadedd mwyaf yn flaenoriaeth. Cefnogir hyn drwy gyfrwng Rhaglenni Gwaith Esgyn a Cymunedau am Waith. Gyda'i gilydd mae'r rhaglenni hyn yn cefnogi pobl sy'n wynebu rhwystrau sylweddol, ac yn aml rwystrau niferus sy'n eu hatal rhag manteisio ar gyfleoedd hyfforddi neu gyflogaeth; maent yn canolbwyntio'n benodol ar aelwydydd di-waith, y rhai sy'n ddi-waith yn y tymor hir neu'r rhai sy'n economaidd anweithgar. Mae Esgyn yn cael ei chyflwyno mewn 12 o Glystyrau Cymunedau yn Gyntaf ac mae Cymunedau am Waith yn cael ei chyflwyno ym mhob un o'r 52 Clwstwr. Rwyf wedi nodi'n glir fy ymrwymiad i barhau â'r rhaglenni hyn.

Erbyn 31 Hydref, roedd y Rhaglen Esgyn wedi darparu 3,919 o gyfleoedd hyfforddiant a chyflogaeth i bobl o aelwydydd di-waith, gan gynorthwyo 800 o bobl i ddod o hyd i waith. Mae Esgyn yn rhagori ar y disgwyliadau ar hyn o bryd ac ar y trywydd iawn i gyrraedd ei tharged cyffredinol o ddarparu 5,000 o gyfleoedd erbyn diwedd mis Rhagfyr 2017. O fewn y BEL Atal ac Ymyrryd yn Gynnar, mae gennyf gyllid o £1.3 miliwn ar gael yn 2017-18 ar gyfer parhau â'r Rhaglen.

Erbyn 21 Tachwedd, roedd Cymunedau am Waith wedi ymgysylltu â 4,607 o gyfranogwyr, gydag 809 ohonynt wedi cael gwaith. Cafwyd peth oedi i ddechrau o ran gweithredu Cymunedau am Waith ond mae'r anawsterau hyn bellach wedi'u goresgyn. Yn 2017-18 rydym yn disgwyl ymgysylltu ag 11,613 o gyfranogwyr a chefnogi 2,692 i gael gwaith. O fewn y BEL Atal ac Ymyrryd yn Gynnar, mae gennyf gyllid o £5.925 miliwn ar gael yn 2017-18 ar gyfer parhau â'r Rhaglen, a chyllid ychwanegol o £9.847 miliwn o'r UE.

Fe wnaethoch ofyn am ragor o fanylion ar Ardaloedd Plant wrth iddynt ddod i'r amlwg ac rwy'n fodlon darparu rhain wrth i'r cynlluniau ddatblygu.

**Adfywio**

Mae adfywio'n parhau i fod yn bwysig i'r Llywodraeth hon ac yn ategu gwaith arall gan gynnwys Bargeinion Dinesig, Ardaloedd Twf a Menter, Metros a Thasglu'r Cymoedd. Er bod y gyllideb ddangosol wedi lleihau, rwy'n hyderus y bydd rhaglen adfywio sylweddol yn cael ei chadw. Rydym yn gweithio i sicrhau y bydd yr arian sydd yng Nghronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio yn cael ei ryddhau cyn gynted ag y bo modd er mwyn cyfrannu tuag at raglen adfywio newydd. Rwyf hefyd yn edrych ar gyfleoedd eraill i ychwanegu at y gyllideb hon cyn cam terfynol y gyllideb.

**Diwygio Llesiant**

Cyhoeddodd Llywodraeth y DU ym mis Rhagfyr 2015 y byddai'n ystyried rhoi mwy o gyfrifoldeb i awdurdodau lleol yn Lloegr, ac i Lywodraeth Cymru, i gefnogi pobl hŷn ag anghenion gofal - gan gynnwys yn y dyfodol y rhai a fyddai fel arall yn cael eu cefnogi gan y Lwfans Gweini. Mae Llywodraeth y DU wedi ymgynghori ar weithredu ymrwymiadau sy'n ymwneud â chynghorau yn Lloegr yn cadw 100% o drethi busnes. Gofynnodd yr ymgynghoriad, a gyhoeddwyd ar 5 Gorffennaf 2016, farn ar amrywiaeth o opsiynau ar gyfer datganoli cyfrifoldebau newydd i lywodraeth leol yn Lloegr, gan gynnwys mwy o gyfrifoldeb am ofalu am bobl hŷn. Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 26 Mehefin 2016.

Mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau bod goblygiadau unrhyw ddiwygiadau i wasanaethau neu gyllidebau gweinyddiaeth ddatganoledig yn cael eu deall yn iawn ac mae wedi datgan y bydd yn ymgynghori ymhellach, mewn da bryd, os bwriedir gwneud newidiadau yn y maes hwn. Rwy'n aros am ohebiaeth bellach gan Lywodraeth y DU ar y mater hwn ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben.

**Cynhwysiant Ariannol**

Nid oes unrhyw ddyraniad penodol i gefnogi'r Cynllun Cyflawni gan y bydd ffrydiau cyllido gwahanol yn cyfrannu at ei gyflawni. Bydd y £13.927m cyfan a ddyrannwyd i weithgareddau cynhwysiant ariannol mewn perthynas â Gwasanaethau Cynghori, Cronfa Cymorth Dewisol ac Undebau Credyd yn helpu i gefnogi gweithrediad y Cynllun Cyflawni ar Gynhwysiant Ariannol.

**Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol**

Mae'r Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol wedi cyllido prosiectau ledled Cymru; mewn 21 o'r 22 ardal awdurdod lleol. Mae'r Rhaglen wedi dyfarnu grantiau i brosiectau bach a mawr. Ymysg y prosiectau bach mae £31,996 i Gyfeillion Llyfrgell Llanfairfechan yng Nghonwy i helpu'r gymuned i ymgmryd â'r gwaith o redeg y llyfrgell a diogelu ei gwasanaethau a £52,800 i Undeb Credyd Casnewydd tuag at gostau symud i safle gwell gan ei alluogi i ehangu ei wasanaethau hanfodol i fwy o bobl. Ymysg y prosiectau mwy mae £500,000 tuag at adnewyddu ac ymestyn Canolfan Ask y Rhyl sy'n gartref i Gyngor Ar Bopeth Sir Ddinbych, gan sefydlu banc bwyd cymunedol ac ystafell TG sydd â'r nod o wella canlyniadau economaidd i ddefnyddwyr. Dyfarnwyd grant arall o £500,000 i Emmaus De Cymru, elusen o Ben-y-bont ar Ogwr sy'n darparu llety cymunedol, hyfforddiant a lleoliadau gwaith i bobl a arferai fod yn ddigartref er mwyn eu helpu i ailintegreiddio i'w cymunedau.

Nid oes gwerthusiad o'r Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol wedi'i gynnal eto gan ei bod yn dal i fod yn eithaf cynnar yn hanes y rhaglen. Fodd bynnag, dangosodd ymweliadau â phrosiectau a gwblhawyd fod y cyfleusterau yn cael defnydd da ac yn gynaliadwy ar gyfer y dyfodol.

O ran effaith y gostyngiad yn y dyraniad cyllid, mae hyn yn syml; bydd y cynllun yn gallu cyllido llai o brosiectau newydd yn y dyfodol. Rwyf eisoes wedi dweud y bydd angen gwneud dewisiadau anodd ac mae hwn yn un ohonynt. Dim ond y ceisiadau gorau a all ddisgwyl cael cyllid gan y Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol yn y dyfodol.

**Diogelwch Cymunedol**

Cyfarfu'r Grŵp Cynghori ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol ar 9 Tachwedd ac rwyf wedi gofyn i'r aelodau ffurfio grŵp i ymgymryd â gwaith i ddatblygu model cyllido cynaliadwy ar gyfer Cymru. Fel rhan o'r gwaith hwn mae grŵp Trawslywodraethol Llywodraeth Cymru yn cynnal ymarfer i benderfynu ar y lefelau cyllido ar draws meysydd polisi sy'n cyfrannu at gyflawni ymrwymiadau'r Ddeddf.

Bydd Rhian Bowen-Davies, y Cynghorydd Cenedlaethol yn arwain y gwaith ar ddatblygu model cyllido cynaliadwy ar gyfer Cymru a fydd yn ystyried y cyllid sy'n dod i Gymru drwy sianelau eraill. Bydd hyn yn cynnwys asesiad o gyllid y Swyddfa Gartref yn ogystal ag arian a ddyrennir drwy Gomisiynwyr yr Heddlu a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder.

Mae fy swyddogion yn gweithio i nodi'r ffrydiau cyllido presennol ar gyfer gweithgarwch yng Nghymru. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall sut y mae cyllid yn cael ei ddyrannu a lle y gall Llywodraeth Cymru ddylanwadu ar benderfyniadau cyllido yn y DU er mwyn sicrhau bod Cymru yn elwa ar unrhyw fentrau ar gyfer Cymru a Lloegr i gefnogi'r agenda hon.

Rhagwelaf y bydd y gwaith ar y model cyllido cynaliadwy yn cymryd rhai misoedd i'w gwblhau, ac felly rwyf wedi cytuno y gall Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd yng Nghymru symud i strwythur rhanbarthol o 1 Ebrill 2018 ymlaen. Bydd hyn yn sicrhau y gallwn greu model cyllido ar gyfer Cymru sy'n cyfeirio'r cyllid i'r lle y mae ei angen fwyaf, sy'n cefnogi gwasanaethau i sicrhau eu bod yn gallu darparu gwasanaethau i ddioddefwyr a goroeswyr ac sy'n galluogi gwaith i symud ymlaen mewn perthynas â gweithgarwch atal a gweithio gyda chyflawnwyr i ddechrau torri'r cylch ymddygiad camdriniol. Elfen allweddol o hyn fydd darparu addysg perthnasoedd iach mewn ysgolion ac i bobl ifanc a dysgu sut y gallwn gael effaith gadarnhaol i liniaru effaith profiadau niweidiol yn ystod plentyndod.

Mae Llywodraeth Cymru wedi dadlau ers tro y dylid datganoli cyfiawnder ieuenctid i Gymru. Y system cyfiawnder ieuenctid yw un o'r ychydig feysydd polisi allweddol sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc sydd heb ei ddatganoli i Gymru.  Mae adolygiad Charlie Taylor yn gwneud nifer o argymhellion; ymysg y rhai allweddol mae diddymu'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, gweithredu deddfwriaeth i ddileu'r gofyniad i awdurdodau lleol sefydlu Timau Troseddau Ieuenctid a throsglwyddo dyletswyddau statudol i Awdurdodau Lleol a chreu ysgolion diogel.

Mae gennym eisoes nifer o Dimau Troseddau Ieuenctid yng Nghymru sydd wedi'u hintegreiddio â'r Gwasanaeth Ieuenctid ac rydym yn cydnabod gwerth a rôl o ddarpariaeth gwaith ieuenctid yng Nghymru.  Mae gan ddull gweithredu mwy cydgysylltiedig y potensial i gyflwyno effeithlonrwydd a manteision ar draws Awdurdodau Lleol.

Daw cyllid i atal a rhwystro pobl ifanc rhag troseddu ac aildroseddu o'r Is-adran Diogelwch Cymunedol drwy'r llinell gyllido Hyrwyddo Ymgysylltu Cadarnhaol ar gyfer pobl ifanc sydd mewn perygl o droseddu. Cychwynnodd y cyllid hwn yn 2003 (yr enw gwreiddiol arno oedd Cronfa Cymunedau Diogelach ac yna yn 2013 y Gronfa Atal Troseddau Ieuenctid) a chytunwyd ar gyllid dangosol ar gyfer 2017-18 yn amodol ar gadarnhau'r dyraniadau cyllideb terfynol ar gyfer 2017-18.

Rhoddir ystyriaeth bellach i'r defnydd o'r llinell gyllido Hyrwyddo Ymgysylltu Cadarnhaol ynghyd â ffrydiau cyllido eraill o fewn Llywodraeth Cymru pan fydd manylion canlyniadau Adolygiad Charlie Taylor ac ymateb Llywodraeth y DU iddo yn hysbys.

**Tai Gwledig**

Gallaf gadarnhau y bydd dyraniad i gefnogi gwaith Hwyluswyr Tai Gwledig wedi'i gynnwys yn y gyllideb ddrafft drwy'r cyllid refeniw Cartrefi a Lleoedd.

**Tai Cynaliadwy**

Rwyf hefyd yn ymrwymedig i gefnogi modelau tai cynaliadwy. Mae gwaith ymchwil diweddar a gomisiynwyd gan Ysgol Bensaernïaeth Cymru wedi tynnu sylw at ystod o arferion arloesol yn y maes hwn yr wyf am inni adeiladu arnynt. Ein bwriad yw y dylai 1000 o'r cartrefi fforddiadwy ychwanegol yr ydym wedi'u cynllunio fod yn seiliedig ar dechnegau a modelau newydd.

Mae'r manylion yn dal i gael eu datblygu, ond rwyf am inni annog arloesi ac rwyf am weld mwy fyth o ymroddiad i ddatblygu cartrefi sy'n rhatach i'w rhedeg.  Mae dull newydd o ddiwallu anghenion y rhai dan 35 oed, gweithwyr allweddol a'r digartref hefyd yn uchel ar fy agenda.

Bydd cynhadledd yn gynnar y flwyddyn nesaf ar gyfer pawb sy'n ymwneud â datblygu a darparu cartrefi lle byddant yn clywed gan y rhai sydd eisoes yn adeiladu modelau newydd. Bydd fy swyddogion yn gweithio gyda'r sector ar y manylion, ond rwy'n benderfynol y bydd yr arfer presennol yn newid.  Mae hwn yn faes lle mae angen inni gymryd golwg llawer mwy hirdymor a herio syniadau ceidwadol a hen ffasiwn.

**Cymorth i Brynu**

Roedd y rhan fwyaf o'r trafodion yng Nghronfa I y cynllun Cymorth i Brynu - Cymru o dan y pris o £225,000 gyda gweithgaredd y 5 prif ddatblygwr yn 42% yn y categori £125,000 - £175,000 a 30% yn y categori £175,000 - £225,000.

Awgrymodd data a gasglwyd oddi wrth yr un datblygwyr yn ystod y cam dylunio ar gyfer Cronfa II y cynllun, ar sail rhagolygon o weithgaredd, mai dim ond 6% a fyddai'n disgyn y tu allan i'r cap pris presennol o £300,000. Mae'r ystadegau swyddogol diweddaraf a gyhoeddwyd yn parhau i ddangos bod y galw mwyaf yn y categori £150,000 - £175,000, sef 23.1% o'r holl werthiannau.

Nodir cyfanswm y pryniannau a gwblhawyd isod.

**Cyfanswm Nifer y Pryniannau a Gwblhawyd hyd 31 Hydref 2016, yn ôl Eiddo**

*Rhifau/Canran*

| **Pris Prynu** | **Nifer cronnus y pryniannau a gwblhawyd yn gyfreithiol** | **Canran cyfanswm y pryniannau a gwblhawyd yn gyfreithiol** |
|---|---:|---:|
| £50,000 - £100,000 | 61 | 1.5 |
| £100,001 - £125,000 | 340 | 8.1 |
| £125,001 - £150,000 | 714 | 17.1 |
| £150,001 - £175,000 | 966 | 23.1 |
| £175,001 - £200,000 | 853 | 20.4 |
| £200,001 - £225,000 | 446 | 10.7 |
| £225,001 - £250,000 | 422 | 10.1 |
| £250,001 - £300,000 | 378 | 9.0 |
| **Cyfanswm** | **4,180** | **100.0** |

Ffynhonnell: Help to Buy (Wales) Cyf

Mae cap o £300,000 yn caniatáu prynu eiddo uwchlaw'r pris prynu cyfartalog diweddaraf (2015) ar gyfer tŷ newydd o £201,000. Mae hyn yn rhoi hyblygrwydd i'r cynllun barhau i adlewyrchu unrhyw gynnydd ym mhris prynu cyfartalog tŷ newydd. Mae ganddo ddigon o botensial i ddarparu'r ysgogiad economaidd sy'n ofynnol, mae'n bodloni'r amcanion strategol o gynyddu'r cyflenwad (heb ystumio'r farchnad), a bydd yn helpu i sicrhau bod y farchnad dai yng Nghymru yn parhau i fod yn gystadleuol. Mae'r cap wedi cael ei ddefnyddio'n llwyddiannus hyd yma ac mae ein rhanddeiliaid allweddol yn credu mai dyma'r lefel fwyaf priodol ar gyfer y farchnad yng Nghymru.

Ar hyn o bryd rwy'n fodlon bod y trothwy hwn yn adlewyrchu amcanion cynllun Cymorth i Brynu - Cymru ac yn cefnogi pobl sy'n ceisio prynu eiddo yn unol â'r bwriad gwreiddiol.

Os bydd prisiau tai yn parhau i godi, gallai'r cap hwn ddechrau eithrio rhan fawr o'r farchnad tai newydd yng Nghymru, heb ystyried y math o dŷ. Fel arall os defnyddir y cyllid sydd ar gael drwy Gam II y cynllun yn gyflymach nag a ragwelwyd gellid lleihau'r cap er mwyn rheoli neu gyfyngu buddsoddiad. Felly, nid wyf yn cynnig unrhyw newidiadau i'r cap ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae fy swyddogion yn gyfrifol am fonitro perfformiad y cynllun yn barhaus a byddaf yn adolygu'r cap pris yn flynyddol i sicrhau bod y cynllun yn parhau i fod yn berthnasol wrth i amodau'r farchnad newid.

**Rhentu i Brynu**

Bydd Grŵp Llywio yn cael ei sefydlu yn gynnar yn 2017 i oruchwylio datblygiad y Cynllun Rhentu i Brynu. Bydd y cynllun ar gael i bobl sy'n anelu at brynu cartref ond heb flaendal ar y cychwyn. Byddwn yn ymgysylltu'n helaeth â rhanddeiliaid ar fanylion y cynllun hwn a byddai'n bleser gennyf roi rhagor o wybodaeth i'r Pwyllgor maes o law.

**Byw'n Annibynnol**

Rydym wedi gweithio'n agos gyda phartneriaid cyflawni, gan gynnwys awdurdodau lleol, cymdeithasau tai ac asiantaethau Gofal a Thrwsio, i wella'r ffordd y caiff addasiadau eu cyflawni a'u monitro. Rydym wedi datblygu ac yn bwriadu cyflwyno dull safonol o fonitro ac adrodd ar yr holl addasiadau, nid dim ond y Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl yn unig. Mae offeryn casglu data wedi cael ei dreialu yn ystod y broses ddatblygu. Rydym wedi cytuno gyda phartneriaid i ba raddau y gall data gael ei gasglu a'i gyflwyno eleni (2016-17). Bydd hyn yn sail i waith monitro llawn yn ystod 2017-18. Byddwn yn defnyddio'r data a gasglwyd eleni i asesu a oes angen rhagor o fireinio yn ystod 2017-18, gan gynnwys a ddylid pennu amserlenni targed penodol ar gyfer cyflwyno'r tri dosbarth o addasiadau - bach, canolig a mawr.

Yn gywir



**Carl Sargeant AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant
Cabinet Secretary for Communities and Children